| SWYDD-DDISGRIFIAD | |
|---|---|
| Teitl y Swydd | Swyddog Cyflogau Pensiwn |
| Cyfarwyddiaeth | Pobl ac Adnoddau |
| Yn atebol i | Rheolwr Gweinyddu Pensiynau |
| Lleoliad | Neuadd y Sir, yr Wyddgrug |
| Cyfeirnod y Swydd/Rhif Adnabod | |

**Pwrpas y Swydd**

Darparu gwasanaeth Cyflogau Pensiwn effeithiol ac effeithlon ar gyfer Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan sicrhau taliadau pensiwn a chyfandaliadau cywir ac amserol.

Delio ag ymholiadau gan aelodau sy'n bensiynwyr, cynghorwyr ariannol a darparwyr, cyflogwyr a'r adrannau rheoliadau a llywodraethu mewnol, amrywiol.

Cefnogi Cynorthwywyr Pensiynau fel y bo'n briodol, a bod yn brif bwynt cyswllt yn eu gwaith o ddydd i ddydd ac yn eu datblygiad parhaus.

**Prif Gyfrifoldebau**

1. Yn gyfrifol am daliadau pensiwn i bensiynwyr y cynllun, dibynyddion a'r rhai sydd â hawl i daliadau digolledu yn unol â deddfwriaeth statudol a rheoliadau ariannol.

2. Yn gyfrifol am daliadau o gyfandaliadau, grantiau marwolaeth, trosglwyddo ac ad-dalu taliadau yn unol â deddfwriaeth statudol a rheoliadau ariannol.

3. Yn gyfrifol am wirio taliadau a wneir drwy gyfrifo treth, gwirio'r didyniadau a wneir a chwblhau holl wiriadau adrodd.

4. Sicrhau bod yr holl ddidyniadau statudol ac anstatudol wedi'u cofnodi a'u cysoni'n gywir er mwyn galluogi i'r cydrannau cywir gael eu codi ar y cyn gyflogwyr a'r cyfrif dal. Sicrhau y gwneir yr holl daliadau i'r cyrff priodol, megis Medicash, Welsh Hospitals and Nightingale House. Cysoni'r cyfrifon dal i'r cyfriflyfr cyffredinol.

5. Cynnal gweithdrefnau rheoli cyflogau priodol ar gyfer cysoni taliadau pensiwn i BACS a gofynion diwedd y flwyddyn/dechrau'r flwyddyn cywir o fewn terfynau amser refeniw.

6. Delio â chyfatebiaeth cyffredinol a darparu gwybodaeth mewn perthynas â phensiynau gan fuddiolwyr y cynllun, HMRC, Benefits Agency a chyrff cysylltiedig eraill.

7. Cynnal cofnodion talu unigol a llawlyfrau aweithdrefnau priodol gan sicrhau bod yr holl wybodaeth yn gyfredol.

| |
|---|
| 8. Ymgymryd â dyletswyddau ariannol, goruchwylio a chynghori eraill y bydd y Rheolwr Gweinyddu Pensiynau ac uwch staff pensiynau eraill yn eu pennu o dro i dro. |

| **Goruchwylio/Rheoli Pobl** |
|---|
| Dim |
| **Gwiriadau Cyflogaeth / Gofynion Penodol, h.y. GDG** |
| Dim |

| **Manylion am yr Unigolyn** | | |
|---|---|---|
| Mae'r manylion am yr unigolyn yn nodi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad a ystyrir yn angenrheidiol i gyflawni'r rôl, ac fe'u defnyddir wrth lunio rhestr fer ar y cam cyflwyno cais a'r cam cyfweld. Felly mae'n bwysig eich bod yn dangos ar eich cais sut rydych yn bodloni pob un o'r gofynion hanfodol. | | |
| **Cymwysterau Academaidd/Proffesiynol** | **Hanfodol / Dymunol** | **Sut bydd yn cael ei asesu?** |
| Addysg hyd at BTEC Uwch/NVQ Lefel IV mewn disgyblaeth briodol (e.e. Cyllid a Gweinyddu, Busnes a Chyllid) neu allu dangos profiad sylweddol mewn maes perthnasol. | Hanfodol | Ffurflen Gais |
| Meddu ar gymhwyster CIPP | Dymunol | Ffurflen Gais |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | | |
| Mae gwybodaeth helaeth o gyflogau a chyflogau pensiwn yn hanfodol | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| Gallu gweithio mewn swyddfa brysur gydag ychydig o oruchwyliaeth a gweithio mewn amgylchedd tîm | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| Gwybodaeth ymarferol dda o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | Dymunol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Gwybodaeth am y Gymraeg a diwylliant Cymru ac empathi tuag atynt | Dymunol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| **Sgiliau** | | |
| Sgiliau rhifyddol da ac yn gallu dangos dawn am ffigyrau | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad / Asesiad |
| Gallu delio â materion personol sensitif mewn modd proffesiynol gan ddefnyddio sgiliau cyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig. | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| Y gallu i gydlynu partïon amrywiol er mwyn sicrhau bod terfynau amser cyflogau pensiwn yn cael eu bodloni | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |

| | | |
|---|---|---|
| Y gallu i ddehongli a chymhwyso gweithdrefnau PAYE presennol, rheoliadau pensiynau a CThEM perthnasol a deddfwriaethau pwysig. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Gallu dangos hunan-gymhelliant, trefniadaeth a'r gallu i gynllunio ymlaen llaw a blaenoriaethu llwythi gwaith. | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| Ymrwymo i ddarparu gofal ardderchog i gwsmeriaid. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Dealltwriaeth ymarferol a phrofiad ymarferol o ddefnyddio meddalwedd gweinyddu Pensiynau/Cyllid | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |